# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Mehefin 2018

Amser: 14.06 - 16.41

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4748

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Vikki Howells AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Iestyn Davies, Colleges Wales<br>Judith Evans, Coleg y Cymoedd<br>Paula Ham, Cyngor Bro Morgannwg<br>Guy Lacey, Coleg Gwent<br>Dr Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas CBE - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mark Jeffs |
| Staff y Pwyllgor: | Matthew Mortlock<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC, Rhianon Passmore AC ac Adam Price AC. Ni chafwyd dirprwyon.

1.3 Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar dderbyn CBE i gydnabod ei wasanaethau i Archwilio ac Atebolrwydd Cyhoeddus yng Nghymru, yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn ddiweddar.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 O ran yr ymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, cytunodd y Cadeirydd i gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch yr adolygiad thematig maent yn ei gynnal y disgwylir i adroddiad gael ei gyflwyno arno ym mis Mawrth 2019. Yn dilyn gwybodaeth a chyngor gan Archwilydd Cyffredinol, cytunwyd cynnal sesiwn dystiolaeth arall fel rhan o ymchwiliad Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru cyn diwedd tymor yr haf.

### 2.1 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (21 Mai 2018)

### 2.2 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (31 Mai 2018)

### 2.3 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Gohebiaeth y Pwyllgor

## 3 Rheoli meddyginiaethau: Trafod ymatebion i argymhellion yr adroddiad

3.1 Nododd y Pwyllgor yr ymatebion a chytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ar nifer o'r ymatebion i argymhellion y Pwyllgor.

## 4 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Gohebiaeth

4.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 5 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Clywodd Aelodau dystiolaeth gan Dr Chris Llewelyn, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, Cyngor Bro Morgannwg fel rhan o'r ymchwiliad i Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif.

5.2 Cytunodd Dr Llewelyn i anfon rhagor o wybodaeth yn amlinellu buddion/manteision awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r model buddsoddi ar y cyd yn lle eu pwerau benthyca eu hunain.

## 6 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Sesiwn dystiolaeth 2

6.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Iestyn Davies, Prif Weithredwr, Colegau Cymru, Judith Evans, Pennaeth, Coleg y Cymoedd, a Guy Lacey, Pennaeth, Coleg Gwent, fel rhan o'r ymchwiliad i Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Trafod y materion allweddol

9.1 Nododd yr Aelodau y bydd papur pellach ar gael iddynt i'w drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 25 Mehefin.